Your child will develop their understanding of numbers and use symbols in maths. They'll explore shapes and measurement and learn about statistics and probability.

Iechyd a Lles / Health and Wellbeing

Mae'n ymwneud â gofalu am iechyd corfforol a meddyliol gan gynnwys lles emosiynol. Bydd yn dysgu am fwyta'n iach a sut i wneud penderfyniadau da, delio â dylanwadau a datblygu cydberthnasoedd iach.

It's about looking after their physical and mental health including emotional well-being. They'll learn about healthy eating and how to make good decisions, deal with influences and develop healthy relationships.

Iaith a Llythrennedd / Language and Literacy

Bydd eich plentyn yn dysgu am ieithoedd. Bydd yn deall ac yn defnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill. Bydd yn astudio ac yn creu llenyddiaeth, ac yn cyfathrebu mewn ffyrdd llafar, ysgrifenedig neu weledol. Gallai hyn gynnwys barddoniaeth, drama a ffilm.

Your child will learn about languages. They'll understand and use Welsh, English and other languages. They'll study and create literature, and communicate in spoken, written or visual ways. This could include poetry, drama and film.

Yr Hyn sy'n Bwysig / What Matters

Dylai'r hyn mae plant yn ei ddysgu ganolbwyntio ar bethau sy'n bwysig iddyn nhw rwan a phethau fydd yn bwysig iddyn nhw pan fyddan nhw'n tyfu i fyny.

Mae pob maes dysgu a phrofiad yn cynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig sy'n llywio dysgu plant o bob oed. Mae'r rhain yn helpu eich plentyn i feddwl am yr hyn y mae'n ei ddysgu a sut mae pynciau'n cysylltu gyda'i gilydd, gyda gwaith a chyda bywyd. Maen nhw hefyd yn helpu plant i wneud cynnydd bob blwyddyn wrth iddyn nhw feithrin eu sgiliau a dealltwriaeth.

Mae mwy o gyfleoedd i'ch plentyn ddysgu sgiliau pwysig am oes a fydd yn ei helpu i:

- werthfawrogi'r byd o'i gwmpas/chwmpas
- gofyn cwestiynau, edrych ar dystiolaeth, gwneud penderfyniadau a datrys problemau
- archwilio, cyfathrebu, creu cynlluniau a dod o hyd i atebion
- adeiladu gwydnwch a rheoli ei les/lles
- gweithio gydag eraill a
- gwneud penderfyniadau am yrfa yn y dyfodol yn seiliedig ar brofiadau ystyrlon mewn dysgu, gwaith ac entrepreneuriaeth.

Your child's learning should focus on things that matter to them now and when they grow up.

Each area of learning and experience contains statements of what matters which shape learning for children of all ages. These help your child think about what they're learning and how topics link to each other, to work and to life. They also support your child to progress each year as they build their understanding and skills.

There are more opportunities for your child to learn important skills for life that will help them to:

- appreciate the world around them
- ask questions, look at evidence, make decisions and solve problems
- explore, communicate, create plans and find solutions
- build resilience and manage their well-being
- work with others and
- make decisions about their future career based on meaningful experiences in learning, work and entrepreneurship.



Meysydd Dysgu a Phrofiad

Areas of Learning and Experience

Yn ogystal â sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, mae chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd popeth mae eich plentyn yn ei ddysgu yn gysylltiedig â'r meysydd hyn.

As well as literacy, numeracy and digital skills, there are six Areas of Learning and Experiences. Everything your child learns will be connected to these area

Mae'r cwricwlwm hefyd yn ymdrin â:

- hawliau dynol
- amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
- profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaedd a'r gweithle
- dysgu am gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb sy'n briodol o ran datblygiad y plentyn.

The curriculum also covers:

- human rights
- diversity and respecting differences
- experiences and skills for careers and the workplace
- learning about local, national and international contexts
- developmentally appropriate relationships and sexuality education



Asesu a Chynnydd y Disgyblion / Pupils Progress and Assessment

Mae asesu parhaus wedi bod yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon cydwybodol erioed. Mae hyn yn sail i baratoi gwaith addas ar gyfer eich plentyn chwi. Bydd disgyblion yn cael eu hasesu ar fynediad.

Ar ddiwedd Tymor yr Haf, byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad eich plentyn o Flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6. Caiff copi o'r adroddiad ei gadw yn yr ysgol.

Cynhelir dwy noson rieni yn ystod y flwyddyn. Yn Nhymor yr haf, ceir cyfle i drafod adroddiad blynyddol a chynnydd eich plentyn os oes pryder.

Continuous assessment has always been an important and natural part of the work of conscientious teachers. This is the basis for the preparation of suitable work for your child. Pupils will be assessed on admission to school.

At the end of the summer term; you will receive a written report on your child's development from Nursery to Year 6. A copy of the report is kept in the school.

Two parent's evenings are held during the year. In the Summer Term, there will be an opportunity for parents to discuss any concerns in the end of year report.



Asesiadau ar lein / Online Assessments

Nod yr asesiadau ar-lein yw darganfod cryfderau plant a meysydd i'w gwella er mwyn i'w hathrawon allu eu helpu i ddatblygu eu sgiliau.

Ar ôl i'ch plentyn gwblhau asesiad personol, bydd ei athro/athrawes yn gallu gweld adborth ar ei sgiliau a'i gynnydd sy'n helpu'r athro/athrawes i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer addysgu eich plentyn.

Bydd yr ysgol yn ystyried yr amseriad a'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr, gan gynnwys yr adborth o asesiadau personol.

- Gwneir yr asesiadau personol ar-lein ac maent yn addasol, sy'n golygu y caiff y cwestiynau eu dewis ar sail ymateb dysgwr i'r cwestiynau blaenorol. Mae hyn yn cynnig profiad asesu sydd wedi'i deilwra ar gyfer pob dysgwr a bydd yn helpu pob dysgwr i ddatblygu eu sgiliau drwy ddeall yr hyn y gallant ei wneud, yr hyn y mae angen iddynt ei wella, a'u camau nesaf.
- Mae'r asesiadau yn rhoi gwybodaeth am sgiliau dysgwyr unigol, grwpiau a dosbarthiadau cyfan.
- Mae rhaid i ddysgwyr sefyll yr asesiadau unwaith yn ystod y flwyddyn academaidd.

The purpose of the on-line assessments is to find out children's strengths and areas for improvement so that their teachers can help them develop their skills.

After your child has completed a personalised assessment, their teacher can see feedback on their skills and progress which helps the teacher to plan the next steps for your child's learning.

The school will consider the most appropriate timing and methods for sharing information on learners' reading and numeracy skills, including the feedback from personalised assessments

- Personalised assessments are taken on-line and are adaptive, meaning that questions are selected based on the responses to previous questions. This provides a tailored assessment experience for each learner and will help all learners develop their skills through understanding what they can do, the things they may need to work on, and their next steps.
- The assessments provide information on the skills of individual learners, groups and whole classes.
- Learners must do the assessments once during the academic year.

Addysg Gorfforol / Physical Education



O fewn y Ffederasiwn, gwelwn Addysg Gorfforol fel rhywbeth sy'n hanfodol i les y plant. Mae cyfleoedd wedi'u hintegreiddio i'r cwriclewlm wythnosol ac annog y plant i ddefnyddio eu cyrff yn effeithiol trwy annog ymwybyddiaeth ofodol, cydbwysedd, rheolaeth, cydlynw a datblygu eu sgiliau motor mawr a bach. Gallant archwilio a datblygu'r medrau corfforol sy'n hanfodol i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau. Mae cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch chwaraeon uniongyrchol yn yr ysgol yn bodoli. Lle bynnag y bo modd, waeth beth fo'r tywydd, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ar safle'r ysgol a thu hwnt. Mae'r gweithgareddau awyr agored hyn yn darparu cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol a deall pwysigrwydd materion fel cadwraeth a datblygu cynaliadwy. Amlygir pwysigrwydd yr awyr agored traws-ysgol.

Mae yna hefyd ddosbarthiadau Medrusrwydd Beicio a sgwtera sy'n hyrwyddo beicwyr diogel ac ymwybodol o'r amgylchedd o'u cwrdd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6.

Within the Federation, we consider Physical Education as an area vital to the children's wellbeing. Opportunities are integrated into the weekly curriculum and the children are encouraged to use their bodies effectively by encouraging spatial awareness, balance, control, coordination and developing their gross and fine motor skills. They explore and develop the physical skills essential to taking part in a variety of different activities. There are opportunities for direct sporting activity in school. Wherever possible, regardless of the weather, the pupils engage in outdoor activities, both on the school premises and beyond. These outdoor activities provide opportunities to increase awareness of the natural environment and understand the importance of issues such as conservation and sustainable development. The importance of outside learning is emphasized throughout the school. There are also Scooter and Cycling Proficiency classes that promote safe cyclists, aware of the environment around them for Year 5 and 6 pupils.



Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chyd Addoli



Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau (Maes).

Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o wersi CGM yn y Cwricwlwm i Gymru

Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn CGM o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

Nid yw'r Ffederasiwn yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol.
Y ffydd Gristnogol yw sail cwrs Addysg Grefyddol yr ysgol, ond cyfeirir at grefyddau mawr y byd.

Cyd Addoli

Cynhelir gwasanaeth dyddiol yn unol a gofynion Deddf Addysg 1986. Gall hyn fod fel dosbarth neu ysgol gyfan Ni cheir unrhyw ymgais i drwytho disgyblion a chredoau penodol, er bod cyfleoedd i arsylwi ymarfer Cristnogaeth – ac yn achlysurol, gredoau eraill. Mae arweinwyr crefyddol yn aml yn cynnal gwasanaethau gyda ni. Mae'r achlysuron hyn yn bwysig os ydyw disgyblion am deimlo eu bod yn rhan gyflawn o gymuned yr ysgol a gobeithir y gallant oll fod yn bresennol yn ein gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y caniateir o dan y Ddeddf Addysg, gall y rhieni hynny sy'n gwrthwynebu i'w plant gymryd rhan yn y gwasanaethau drefnu gyda'r Pennaeth iddynt gael eu hesgusodi rhag cymryd rhan ynddynt. Mewn achos o'r fath, bydd y disgybl yn cael cyfle i weithio ar brosiectau unigol.



Religion, values and ethics and Collective Worship



Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16.

RVE forms part of the Humanities Area.

Parents do not have the right to request that their child be withdrawn from RVE lessons in the Curriculum for Wales.

As RVE is a locally determined subject, the agreed syllabus sets out what should be taught in RVE within the local authority, and our curriculum will reflect this guidance.

The Federation does not have any direct or formal link with any religious denomination.

Christian faith forms the basis of the school's Religious Education course, but reference is made to the major world religions.

Collective Worship

A daily service is held as laid down in the Education Act 1986. This may be as a class or whole school. No attempt made to instil particular beliefs into pupils, although there are opportunities to observe the practice of Christianity - and occasionally of other faiths.

Faith leaders regularly visit to conduct assemblies. These occasions are important if pupils are to feel part of the school community and it is hoped that they will all be able to attend our services. However, as permitted in the Education Act, parents who object to their children participating in the services may make arrangements with the Headteacher for them to be excused. In such an instance, the pupil will have an opportunity to work on individual projects.



Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chyd Addoli



Anelwn i ddatblygu elfennau o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy

Dysgu penodol o gredoau'r byd

Ystyried barn eraill

Annog disgyblion i weld cysylltiadau â digwyddiadau byd go iawn

Myfyrion ar ein byd a sut y gallwn wneud gwahaniaeth

Cyfleoedd i drafod cyd-destunau lleol a byd-eang a materion cyfoes

Amser addoli a myfyrion dyddiol, priodol i'r oedran

Storïau, digwyddiadau ysgol ac ymwelwyr

We aim to develop religious values and ethics through

Explicit teaching of world beliefs

Considering different views

Encouraging pupils to see links with real world events

Reflection on our world and how we can make a difference

Opportunities to talk about local and global contexts and current affairs

Age-appropriate daily worship time and reflection

Stories, school events and visitors

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Ein nod i gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yw gwneud hynny drwy roddi sylw dyledus i agweddau moesol ac y dylai ganolbwyntio ar rinweddau bywyd teuluol cadarn. Bydd popeth yn briodol i ddatblygiad dysgwyr. Rhoddir ystyriaeth lawn i ffactorau gan gynnwys oedran y dysgwr, ei wybodaeth a'i aeddfedrwydd; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a datblygiad emosiynol

Amcan Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yw helpu a chefnogi pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu yn gorfforol, yn emosiynol, yn foesol, ac yn ysbrydol. Rhoddir cryn bwyslais ar raglen sy'n helpu disgyblion i barchu eu hunain ac eraill ac i symud yn hyderus o blentyndod, trwy lencyndod, a maes o law i fod yn oedolion. Nôd y polisi hwn yw bod yn gwbl sensitif i ddiwylliannau a chrefyddau eraill, yn unol â threfn yr ysgol i weithio, cynhwysir pob disgybl.

Hanfod ARhPh yw deall pwysigrwydd perthnasedd sefydlog a chariadus, wedi eu selio ar barch, cariad, gofal ac adeiladu perthnasau llwyddiannus a chyfeillion â'r gymuned ehangach.

Ceir y manylion llawn drwy ddilyn cwricwlwm-i-gymru-cod-addysg-cydberthynas-rhywioldeb.pdf (llyw.cymru)

Our aim when introducing Relationships and Sex Education is to do so through giving due attention to moral aspects and that it should focus on the virtues of a firmly based family life. Everything will be developmentally appropriate for learner. This will take account of a range of factors including the learner's age; knowledge and maturity; any additional learning needs and emotional development.

The aim of Relationships and Sex Education is to assist and support young people during their physical, emotional, moral, and spiritual development. There is a considerable emphasis on a programme that assists pupils to respect themselves and others and move with confidence from childhood, through adolescence, and in due course to adulthood. The policy aim is to be wholly sensitive to other cultures and religions, and in accordance with the school's system in order to work, all pupils are included.

The essence of SRE is to understand the importance of a stable and loving relationship, based on respect, love, care and on building successful relationships with friends and the wider community.

Full details can be found at curriculum-for-wales-relationships-sexuality-education-code.pdf (gov.wales)

Gwaith Cartref / Homework

Rhoddir gwaith cartref i'r plant yn ôl yr angen, ond bydd plant yn mynd â llyfrau darllen adref yn rheolaidd. Pan ddigwydd hynny gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant. Ambell i dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni pherthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. O dro i dro fe all athrawon ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn gorffen / atgyfnerthu / ymestyn neu canolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bydd yr ysgol yn rhoi ystyriaeth i oedran, gallu ac anghenion y plentyn wrth osod gwaith cartref.

The children are given homework as and when the need arises, but take reading books home regularly.

From time to time a particular activity requires information by parents, relations, and neighbours, or requires interviewing and research work by the child. When this happens, it is hoped that parents will co-operate to encourage their child in his/her work.

Occasionally teachers may ask a child to do additional work in order to overcome some unfinished / weakness / extend or to concentrate on a special aspect of the work.

Consideration is given to the age, ability and needs of every child when setting any homework.



Mae gwaith ymarferol fydd eich plentyn yn ei wneud yn cael ei roi ar app Seesaw a byddwch yn cael gweld y gwaith yn ystod Noson Rieni. Mae hefyd mynediad ar gyfer yr un cartref ar gyfer helpu'r plentyn adref.
*Practical work that your child completes in school will be uploaded to the Seesaw app and you will be able to see the work during Parents Evening.
You will also have Access to the Home Seesaw to help your child at home.*

Disgwylir i ddisgyblion ddarllen yn rheolaidd gartref (llyfrau darllen a wefan Darllen.Co)

Yn ogystal, disgwylir i blant ymarfer eu bondiau rhif / tablau yn rheolaidd ac ar wefan Numbots / TT Rockstars.

Mae app Tric a Chlic yn dda iawn ar gyfer dysgu adnabod llythrennau a darllen geiriau.



We expect pupils to read regularly at home (reading books and Darllen.co website).

Also, we expect pupils to regularly practice number bonds / times tables on Numbots / TT Rockstars website.

Tric a Chlic app is a great app for learning to recognise letters and read words.

Cytundeb rhwng cartref ac ysgol

O safbwynt yr ysgol:

- Bydd y Ffederasiwn yn sicrhau y darperir rhaglen addysgu eang a chytbwys, sy'n cwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a Chymhwysedd Digidol – hefyd Cwricwlwm i Gymru 2022.
- Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pob disgybl yn gweithio hyd eithaf ei (g)allu.
- Gwneir pob ymdrech i baratoi amgylchedd ddiogel a gofalgar i bob disgybl.
- Bydd y Ffederasiwn yn darparu gwaith cartref yn dibynnu ar oedran y disgyblion – darllen yn bennaf.
- Bydd yr ysgol yn:
 - ⇒ darparu gwybodaeth rheolaidd i rieni
 - ⇒ darparu gwybodaeth am gynnydd disgyblion
 - ⇒ cysylltu ar fyrder ynghylch unrhyw bryderon
- Bydd yr ysgol yn rhoi sylw teilwng a phrydlon i unrhyw bryder

O safbwynt rhieni/gwarcheidwaid:

Disgwylir i rieni/gwarcheidwaid:

- roi pob cymorth a chefnogaeth i ddisgyblion gyda'u haddysg
- gefnogi unrhyw weithgaredd a osodir gan yr ysgol gan gynnwys gwaith cartref/darllen rheolaidd/dysgu tablau a.y.y.b
- fynychu nosweithiau rhieni a chyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer trafod datblygiad disgyblion
- sicrhau prydlondeb
- cydymffurfio â pholisi ymddygiad
- annog disgyblion i feithrin hunan barch a pharch at eraill
- **gysylltu â'r ysgol ar unwaith mewn unrhyw achos o absenoldeb.**



Home school agreement

School Agreement:

- *The Federation will ensure a broad and balanced teaching programme, which will fully meet the requirements of the National Numeracy and Literacy Framework and the Digital Competency Framework and aspects of the new 2022 Curriculum for Wales*
- *The Federation endeavours to ensure that every child works to his/her utmost ability*
- *The Federation endeavours to guarantee a secure and caring environment for every pupil*
- *The Federation will set regular homework depending on the child's age – mainly reading practice*
- *The Federation will :*
 - ⇒ *communicate regular information*
 - ⇒ *communicate information about a child's progress*
 - ⇒ *inform parents of any cause for concern*
- *The Federation will take appropriate and swift actions regarding any concerns you may voice*

Parents'/Carers Agreement:

Parents / Carers are expected to:

- *support and encourage children*
- *support activities organised by the school, including home work / to read regularly with the child / help to learn the time tables etc*
- *attend parents' evenings and other meetings*
- *ensure punctuality*
- *ensure that children follow the School Behaviour Policy*
- *encourage children to be considerate*
- **Inform the school at once if the child is absent for any reason.**



Gwersi Offerynnol / Instrumental lessons

Mae disgyblion Blwyddyn 2 – Blwyddyn 6 yn cael cyfle i gael gwersi offerynnol

- Piano
- Ukelele
- Gitar

Yn ystod mis Mehefin bydd llythyr yn dod allan i ddatgan diddordeb.

Yna bydd angen arwyddo cytundeb bod eich plentyn yn cymryd gwersi am y flwyddyn.

Cost y gwersi offerynnol yw £60 y tymor.



Year 2 – 6 have the opportunity to have instrumental lessons

- Piano
- Ukelele
- Guitar

During June, a letter will be sent home to show interest. Then, there will be an agreement letter to sign for your child to have lessons for the year.

Cost of instrumental lessons is £60 for a term.



Cynllun Gwen /

Mae disgyblion Meithrin – Flwyddyn 2 yn rhan o Cynllun Gwen. Bydd disgyblion yn brwsio eu dannedd yn ddyddiol yn yr ysgol. Cyn bod eich plentyn yn cymryd rhan, bydd angen cwblhau ffurflen ganiatad.



Gwobr Cynllun Gwên
Designed to Smile Award

 Un o fentrau
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Initiative

Am gymryd rhan yn Rhaglen Cynllun Gwên
For participating in the Designed to Smile Programme

Mae Cynllun Gwên yn cyfrannu at datblygiad Cynllun Ysgolion Iach - Rhwydweith Cymru
Designed to Smile contributes to the Welsh Network of Healthy School Schemes development

Nursery – Year 2 pupils are taking part in the Designed to Smile Programme. Pupils will be brushing their teeth daily in school. Before your child starts the programme, a consent form must be signed.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mrs Kayla Lockett yw cydlynnydd ADY Ysgol Pennal a **Mrs Eirlys Wyn Jones** yw Cydlynnydd ADY Ysgol Dyffryn Dulas.

Gall darpariaeth ar gyfer plant ADY amrywio: rhoddir sylw unigol/grŵp bychan o blant o fewn y dosbarth gan yr athrawon dosbarth. Os oes angen mwy o sylw unigol cyfeirir y plentyn i sylw Adran Gwasanaeth Seicolegol y Sir gyda'r posibilrwydd o drefnu darpariaeth arbenigol.


Cysylltiadau

Sicrhair cysylltiadau cryf â'r:

- Rhieni
- Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg
- Athrawon Arbenigol
- Gwasanaeth Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaeth Lles Addysg
- Cyrff Gwirfoddol
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc



Mae trefn arbennig wedi ei mabwysiadu a'i gweithredu i gofnodi holl anghenion y plant y cyfeirir atynt yn y Cod Ymarfer. Asesir y disgyblion drwy brofion safonedig mewn Iaith a Rhif a dilynrir arweiniad yr Awdurdod Addysg.



Additional Learning Needs

Mrs Kayla Lockett is the ALN Co-Ordinator for Ysgol Pennal and **Mrs Eirlys Wyn Jones** is the ALN Co-Ordinator for Ysgol Dyffryn Dulas.

Support varies: Individual attention or small group attention is given within the class by the class teacher. If extra individual attention is required, the child is then referred to the County Psychological Service Department, where specialist provision could be arranged.

Contacts


Strong links are forged with

- Parents
- The Education Psychology Service
- Specialist Teachers
- Health Service
- Social Services
- Education Welfare Service
- Voluntary Bodies Children and Young People
- Mental Health Service



Special arrangements have been adopted and implemented to record all needs of children mentioned in the Code of Practice.

The pupils are assessed through standardised tests in Language and Numeracy and the LEA guidelines are followed.



Anghenion Dysgu Ychwanegol

Trefniadau ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Egwyddorion

Mae'r Ffederasiwn yn anelu at sicrhau:

- cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag ADY
- cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol ac eraill perthnasol i'r plentyn a'i anawsterau
- cysylltiad agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r disgyblion
- pwyslais ar gyfraniad y disgybl ac yn rhoi pob ystyriaeth i'w farn
- ymateb ysgol gyfan i helpu'r disgybl

Amcanion

- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg
- Casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon, rhieni, y disgybl ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag ADY
- Ceisir sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth

Mae gan yr ysgol Bolisi Cyfle Cyfartal i'r holl ddisgyblion

Ceir gwybodaeth manylach ac adnoddau defnyddiol o'r linc isod

[ADYaCh – Cartref](#)



Additional Learning Needs

Arrangements for pupils that have Additional Learning Needs Principles

The Federation aims to ensure:

- that ALN pupils receive curricular and social equal opportunities.
- effective collaboration with statutory agencies and others that are of relevance to the child and his/her difficulties
- close links with parents so as to ensure an effective partnership to assist the pupils
- that an emphasis is placed on the pupil's contribution and that his/her opinions are fully taken into account
- whole school response to assist the pupil

Aims

- Ensure that there is a system in place at the school to identify, at an early stage, the child who has difficulties that may hinder his education
- Gather information from teachers, parents, the pupil and others to ensure that the nature of the child's difficulties are understood as fully as possible
- Ensure that an ALN pupil receives the necessary provision
- The collaboration and support of parents and others is sought as regards identifying and providing a service

The school has an Equal Opportunities Policy for all pupils

Detailed information and useful resources are available from the link [ADYaCh - Home](#)



ELSA



Gyda beth gall ELSAs helpu?

Mae llawer o sgiliau emosiynol y gall ELSA helpu gyda nhw, gan gynnwys:

- Sgiliau cymdeithasol
- Profedigaeth
- Sefyllfaoedd cymdeithasol
- Straeon therapiwtig
- Rheoli dicter
- Hunan-barch
- Sgiliau datrys problemau bywyd go iawn
- Cyfeillgarwch

Fel arfer, bydd sesiynau ELSA yn digwydd unwaith yr wythnos am oddeutu chwe wythnos, ac yn para rhwng hanner awr a awr.

Yn ystod sesiwn, bydd yr ELSA yn:

- Gwirio sut mae'r disgybl a sut maent wedi bod yn teimlo dros yr wythnos ddiwethaf
- Adolygu cynnwys y sesiwn flaenorol a gweld a oes angen ailystyried unrhyw wybodaeth
- Cyflwyno cynnwys newydd drwy gemau a gweithgareddau difyr
- Gorffen y sesiwn mewn ffordd sy'n helpu'r disgybl i addasu wrth ddychwelyd i'r dosbarth

Mae gennym 1 Cynorthwydd Cymorth ELSA hyfforddedig.

Mae ELSA yn sefyll am 'Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol'.

Mae gweithiwr ELSA yn cefnogi lles emosiynol disgyblion ac wedi cael hyfforddiant gan dîm o Seicolegwyr Addysg, ac yn derbyn goruchwyliaeth grŵp barhaus.

Mae cymorth ELSA mewn ysgolion yn brosiect sydd wedi'i gynllunio i helpu ysgolion i gefnogi anghenion emosiynol eu disgyblion.

Mae ELSA yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn dysgu orau pan fyddant yn teimlo'n hapusach ac mae eu hanghenion emosiynol yn cael eu diwallu.



ELSA



We have 1 trained ELSA Support Assistant.

ELSA stands for 'Emotional Literacy Support Assistant'.

ELSA worker supports the emotional wellbeing of pupils and has been trained by a team of Educational Psychologists and receive ongoing group supervision.

ELSA support in schools is a project designed to help schools support the emotional needs of their pupils.

ELSA acknowledges that children and young people learn best when they feel happier and their emotional needs are being addressed.

What can ELSAs help with?

There are a lot of emotional skills that ELSA can help with, including:

- Social Skills
- Bereavement
- Social Situations
- Therapeutic Stories
- Anger Management
- Self-esteem
- Real-life problem-solving skills
- Friendship

ELSA sessions will typically happen once a week for approximately six weeks and last between half an hour and an hour.

During a session, the ELSA will:

- Check how the pupil is and how they have been feeling for the past week.

- Review the content that was covered in the last session and see if any of the information needs to be revisited.

- Introduce new content through engaging games and activities.

- End the session in a way that helps the pupil to adjust to going back to class.



Cyfle Cyfartal / Equal Opportunities

CYFLE CYFARTAL

Mae gan y Ffederasiwn Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, waeth beth yw eu hanabledd, hîl, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r Ffederasiwn i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwllo ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb.

EQUAL OPPORTUNITIES

The Federation has a Strategic Equality Plan that ensures equality of education and opportunity for all pupils, staff, parents and carers receiving services from the school, irrespective of disability, race, gender, age, sexual orientation, religion or belief, gender reassignment, pregnancy & maternity, marriage and civil partnership. We aim to develop a culture of inclusion and diversity in which all those connected to the Federation feel proud of their identity and able to participate fully in school life.



**Disgyblion ag anableddau / Cynllun Hygyrchedd
Pupils with Disabilities / Accessibility Plan**

Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychanegol neu Gynhwysol yn cychwyn yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech cadarnhaol i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Buasai'r Llywodraethwyr yn gefnogol i unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai angen gwneud i'r adeilad ar gyfer derbyn plentyn neu oedolyn gydag anabledd.

Special arrangements are made between school and home when a pupil with disabilities or Additional Learning Needs or Inclusion issues starts at the school. The school is sensitive towards the needs of pupils with disabilities and makes every positive effort to ensure that they are included in all aspects of the school's life and work. The Governors would support any necessary reasonable adaptations to the building to receive a disabled child or adult.

Disgwyliadau ynglŷn ag ymddygiad yn yr ysgol

Expectations regarding behaviour at the school



Ceisir sicrhau fod pawb yn ymwneud â'i gilydd mewn modd cwrtais gyda'r pwyslais ar barch h.y. parch tuag at eu hunain, parch at eraill a pharch at eiddo.

Mae disgyblion yn cael eu dysgu bod canlyniad i bob ymddygiad – boed yn ganmoliaeth, gwobr neu gosb

Credwn mai trwy siarad â phlant a threulio amser gyda hwy yn datrys problemau a dangos mai hyn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau safon uchel o ymddygiad.

Mae canmol plant am eu hymdrechion yn uchel ar agenda pob aelod o staff yr ysgol a cheisir rhoddi bri ar y positif yn barhaus.

Mae pob dosbarth yn gweld gwerth mewn 'amseroedd cylch' pan fydd y plant yn trafod ystod o wahanol dopigau gan sicrhau cyfleoedd iddynt fynegi barn ac uniaethu gydag unigolion eraill.

Mae ein polisi gwrth-fwlio yn ein hatgoffa i gyd bod bwlio yn ffactor cymdeithasol endemig, fel bod angen i ni i gyd fod yn wylidwrs ac yn rhagweithiol wrth sicrhau ei fod yn cael yr effaith leiaf bosibl ar ein plant a'n pobl ifanc.

Efforts are made to ensure that everybody treat one another courteously with the emphasis being on respect. i.e. self-respect, respect towards others and respect towards property.

The children learn that every chosen behaviour has a consequence – whether it be praise, reward or forfeit

We are of the view that it is through speaking with children and spending time with them on problem-solving to show that it is the most effective way of ensuring a high standard of behaviour.

Commending children for their efforts is high on the agenda of every member of school staff and we constantly strive to emphasise the positive.

Every class recognises value in 'circle times', when the children discuss a range of different topics, providing opportunities for them to express an opinion and identify with other individuals.

Our anti bullying policy reminds us all that bullying is an endemic social factor, so that we all need to be vigilant and proactive in ensuring it has minimal impact on our children and young people.

Trefniadaeth Fugeiliol / Pastoral Care

Y Pennaeth a'r Pennaeth Mewn Gofal sy'n gyfrifol am redeg yr ysgol a dibynant ar gydweithrediad y staff i ofalu am y plant. Mae'r athrawon dosbarth yn gyfrifol am y plant yn eu dosbarth ac y mae hyn yn eu galluogi i drefnu gwasanaeth fugeiliol i'r plant sydd dan eu gofal.

Mae athrawon ac aelodau o staff cynorthwyol ar ddyletswydd ar y iard bob amser chwarae, neu petai yn wlyb, yn yr ysgol. Amser cinio, gofalir ar ôl y plant gan goruchwylwyr amser cinio.

Y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb penodol dros ddisgyblion sydd mewn gofal.

Os oes gan rieni unrhyw bryder ynglyn a'u plant dylent gysylltu a'r Pennaeth yn gyntaf fel y gellir ei drafod a threfnu, os bydd angen, i gyfarfod a'r athro/athrawes ddosbarth.



The Headteacher and Assistant Headteacher have the overall responsibility for the school and they will depend on the close co-operation of all members of staff in caring for the pupils. Each pupil is allocated a class for the purpose of registration and this enables the class teachers to be personally responsible for the pastoral care of their pupils.

During playtime, a member of teaching class as well as members of the support staff are on duty in the playground, or in the case of inclement weather, in the school. During the lunch period, supervision is carried out by the dinner supervisor.

The Headteacher has the specific responsibility for the pastoral care of looked-after children.

If parents are in any way concerned about their children, they should initially contact the Headteacher in order to discuss the matter, and if necessary arrange a meeting with the child's class teacher.



Plant sy'n derbyn gofal / Children in care

Mae'r ysgol yn gweithredu Polisi Plant Mewn Gofal ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod y plant hyn yn cael mynediad i'r addysg briodol ar gyfer eu gallu neu dawn ac yn derbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol.

Y person sydd â chyfrifoldeb dros hyrwyddo cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg yw y Pennaeth.

The school implements a Children in Care Policy and has procedures to ensure that any such children have access to an education that is appropriate to their abilities and aptitudes, and receive every possible opportunity and support to develop both educationally and socially.

The designated person with responsibility for promoting the achievements of children in care in education is the Head teacher.



Polisi Presenoldeb

Mae bod yn absennol o'r ysgol yn mynd i effeithio ar gynnydd disgybl. Bydd hefyd yn effeithio ar addysg gweddill y plant sydd yn yr ysgol gan y gall ddal gwaith y grwp neu'r dosbarth yn ôl pan fydd y plant a fu yn absennol yn dychwelyd.

Wrth gwrs, bydd unrhyw absenoldeb yn gwneud hi'n anodd i'r athro/athrawes i sicrhau dilyniant a datblygiad yn strwythur y gwaith gan y bydd unigolion yn colli agweddau pwysig o'r gwaith. Felly, mae hi'n holl bwysig i blant fynychu yr ysgol bob amser, ac mae hi'n gyfrifoldeb statudol ar y Llywodraethwyr i sicrhau hynny.

Apwyntiadau Meddygol/Deintyddol

Gofynnir i rieni i geisio cael apwyntiadau deintyddol, optegyddol a meddygol, heblaw mewn argyfwng, naill ai ar ôl oriau ysgol neu yn ystod y gwyliau.

Disgyblion yn Hwyr

Cofnodir disgyblion nad ydynt yn yr ysgol erbyn 9.10 yn absennol – anawdurdodedig – am weddill y bore. Gall nifer o absenoldebau cyffelyb arwain yr ysgol i dynnu sylw y Swyddog Lles at y mater.

Cyffredinol

Gofynnir i rieni gysylltu â'r ysgol erbyn 9.00 os bydd eu plant yn absennol y diwrnod hwnnw. Mae hyn hefyd am resymau diogelwch, oherwydd gall plentyn fod wedi cychwyn am yr ysgol ac eto heb gyrraedd. Ni fydd y rhieni yn gwybod, a hwyrach ni fydd yr ysgol yn ei ddisgwyl chwaith. Petai'r absenoldeb yn parhau mwy na diwrnod, yna'n hytrach na chysylltu â'r ysgol bob bore, gall y rhieni roi gwybod i'r ysgol ar y bore fydd y plentyn yn dychwelyd.


Absenoldebau

Mae pob absenoldeb naill ai yn un awdurdodedig neu yn un anawdurdodedig. Dim ond yr ysgol sydd â'r hawl i awdurdodi absenoldeb, a gall hyn gynnwys salwch, apwyntiadau deintyddol neu amgylchiadau na fedrir eu rhagweld. Absenoldebau anawdurdodedig fydd y gweddill.

Gwyliau Teuluol

Fel mae'r ddeddf yn sefyll, nid oes gan rieni hawl i dynnu eu plant o'r ysgol er mwyn mynd ar wyliau yn ystod y tymor. Mae gan Lywodraethwyr ysgolion yr hawl i ganiatáu neu i wrthod ceisiadau. Teimlad cryf Llywodraethwyr y Ffederasiwn yw na ddylai rhieni fynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor. Ond, penderfynwyd ein bod yn fodlon ystyried unrhyw gais ysgrifenedig ymlaen llaw i deulu gymeryd i fyny at uchafswm o 10 diwrnod ysgol yn unig mewn blwyddyn ysgol. Yn ddelfrydol, ac os oes gwir angen, efallai y dylid ystyried y 10 diwrnod hynny yn ystod wythnos olaf y tymor, neu i fod ynghlwm a hanner tymor. Os caniateir yr absenoldeb, yna ystyrier o fel un awdurdodedig. Os na fydd y plentyn wedi dychwelyd i'r ysgol ar y 11eg diwrnod ysgol, yna absenoldeb anawdurdodedig fydd o, oni bai fod yna esboniad derbyniol. Os bydd % absenoldeb disgybl yn llai na 92% ni fydd y Pennaeth yn rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar wyliau. Bydd yr absenoldeb anawdurdodedig yn caniatáu yr ysgol i weithredu fel a ganlyn

- a) trosglwyddo'r wybodaeth i sylw Swyddog Lles y Sir. Bydd ef/hi wedyn yn penderfynu pa gamau fydd angen eu cymeryd ymhellach.
- b) petai'r plentyn ddim yn dychwelyd am 10 diwrnod, yna byddwn yn medru dileu enw'r plentyn o gofrestr yr ysgol.



Attendance Policy

Any absence from school, for whatever reason, will affect a pupil's progress. Needless to say, this will make it difficult for the teacher to ensure continuity in the work as children will be missing the beginning or other aspects of a particular programme of work. Therefore, it is of paramount importance for children attend school at all times and it's a statutory duty of the Governors to ensure so.

Medical/Dental Appointments

Parents are requested to try and ensure that dental, optician, and medical appointments, except for emergencies, are made either during the school holidays or after school hours.

Pupils Late for School

Pupils who are not at school by 9.10 in the morning will be recorded as being absent – unauthorised – for the whole morning session. A number of such absences could then lead the school to report the matter to the Welfare Officer.

General

Parents are requested to contact the school by 9.00 a.m. if a child will be absent that day. This is for safety reasons as well, because a child may have left home for school and may not arrive.

Absences

All absences are either authorised or unauthorised. Only the school can authorise an absence, which covers illness, dental appointments or other possible unforeseen circumstances. Other absences are unauthorised.




Family Holidays

Parents, by law, have no right to withdraw their children from school to go on holiday. The Governors of schools have the discretion to allow such holidays or not. The Governors of this Federation strongly disapprove of any child being withdrawn from school to go on a family holiday during term time. But consideration will be given to a written request beforehand to take up to a maximum of 10 school days per school year. Ideally, and if necessary, those 10 days should be taken during the last week of a term, or possibly attach them to half term. If permission is granted, then those 10 days will be classified as an authorised absence. If a child has not returned to school on the 11th school day, then that absence will be unauthorised, unless there is an acceptable explanation for the absence. If a pupil's attendance is less than 92%, Headteacher will not be authorising the Holiday request

The unauthorised absence will allow the school to take the following steps.

- Report the absence to the County's Welfare Officer, who will then take the appropriate action he/she feels necessary.
- If the child has still not returned to school after 10 days, the school can then remove the child's name from the register.



Gwisg Ysgol / School Uniform

GWISG YSGOL

Fe anogir y disgyblion i gyd i wisgo gwisg ysgol. Teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

Gellir prynu gwisg ysgol drwy'r ysgol. Mae hefyd cyflenwad o ddillad ail law yn yr ysgol yn yr Hwb Cymunedol yn Machynlleth.

Er mwyn hwylustod, gofynnir i rieni roi enw ar ddillad

SCHOOL UNIFORM

We encourage all pupils to wear school uniform. It is felt that a school uniform leads to a sense of pride in the school and a sense of belong. School uniform can be purchased through the school.

There is also a stock of second hand uniform at the Community Hwb in Machynlleth. Parents are kindly asked to label children's clothes.

Dyffryn Dulas a Pennal

Esgidiau du	Black shoes
Trowsus du / llwyd	Black / grey trousers
Sgert ddu / llwyd	Black / grey skirt
Crys polo gwyn	White polo shirt
Crys chwys marŵn (Dyffryn Dulas)	Maroon sweatshirt (Ysgol Dyffryn Dulas)
Crys chwys jêd (Ysgol Pennal)	Jade Sweatshirt (Ysgol Dyffryn Dulas)
Treinyrs, siorts a chrys chwys i wersi addysg gorfforol	Trainers, shorts and a t-shirt for PE lessons

Salwch neu niwed / Illness or injury

Salwch neu niwed

Dyletswydd y rhieni yw gwneud trefniadau ar gyfer plant sy'n mynd yn sâl, drwy eu casglu i fynd â hwy adre, neu at y meddyg neu i'r ysbyty. Os na ellir cysylltu â rhieni neu berthnasau pan fydd plentyn yn ddifrifol sâl, gofynnir am gyngor y meddyg, neu os bydd angen, am gymorth y gwasanaeth ambiwlans. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd angen o bosib i'r Pennaeth drefnu bod y plentyn yn cael ei gludo i'w gartref neu i'r ysbyty.

Illness or Injury

It is the duty of parents to make arrangements for pupils who become unwell at school, by collecting them to take them home, to a doctor or to hospital. If parents or relatives are not available when a pupil becomes unwell or injured, medical advice will be sought and, if necessary, the assistance of the ambulance service. In exceptional circumstances it may be necessary for the Headteacher to arrange for the pupil to be conveyed to the home or the hospital.



Meddyginiaeth / Medication

Oherwydd rhesymau iechyd a Diogelwch, ni all yr ysgol gymryd cyfrifoldeb dros ddosbarthu unrhyw fath o foddion, (gan gynnwys Calpol) i blant, ond gallwch, pe dymunwch, ddod i wneud hynny, neu yrru cynrychiolydd ar eich rhan.

Os yw plentyn yn derbyn cwrs o wrth-biotig ac yn ddigon da i fynychu'r ysgol, gellid gofyn i'r meddyg am ddigon i'w gymryd ddwywaith y dydd.

Ni chaniateir da-da annwyd, megis Tunes, a.y.y.b. rhag ofn i blentyn fygu.

Mewn achlysuron arbennig, e.e. plentyn sydd â salwch tymor hir, neu blentyn sydd yn ddibynnol ar feddyginiaeth ddyddiol, gellid gwneud trefniadau drwy gysylltu â'r Pennaeth. Mewn achosion o'r math, gofynnir am gyfarwyddiadau ysgrifenedig gan feddyg y plentyn a llofnod rhiant yn trosglwyddo caniatad i'r Ysgol. Gofynnwn i chi ddanfôn syrinjys i ni efo'r mesur cywir wedi ei baratoi yn barod.

Due to Health and safety restrictions, the school cannot accept responsibility for administering any kind of medicine, (including Calpol) to children, but you may, should you wish, come in to do so yourself or send a representative on your behalf.

If a child is on a course of antibiotics and well enough to attend school, it is possible to ask the doctor for a twice-daily dose.

Cold sweets, such as Tunes etc. are not allowed in case of choking. In special circumstances, e.g. if a child suffers from a long term illness or is dependent on daily medicine, arrangements can be made by contacting the Headteacher. In such cases, written instructions by the child's doctor will be needed as well as a parent's signature giving School the required permission. Please send in syringes with the correct dose ready prepared

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Ymwrwymodd Llywodraeth Cymru i roi brecwast dyddiol, iach am ddim i bob plentyn o oedran ysgol gynradd sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol yng Nghymru.

Mae Clwb Gofal Cyn-Ysgol ar gael bob bore i ddisgyblion o 8.10yb ymlaen am ffi o £1 y dydd, yn daladwy ar lein drwy School Gateway. Ceir brecwast am ddim fel rhan o hyn.

Mae Clwb Brecwast am ddim ar gael rhwng 8.30yb ac 8.40yb. Noder bod y drws yn cau am 8.40.

Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn briodol yn ystod y Clwb Brecwast, yn union fel mae'r disgwyl am weddill y dydd.

Os nad, yna yn anffodus bydd rhaid cael trafodaeth am addasrwydd y trefniant gyda chi.

Os am fynychu Clwb Gofal Cyn-Ysgol neu Clwb Brecwast mae'n rhaid cofrestru ar School Gateway er mwyn sicrhau lle.

The Welsh Assembly Government committed to provide a free, healthy breakfast at school each day for all children of primary school age in Wales.

A Pre-School Care Club is available every morning from 8.10 onwards for a daily fee of £1, payable online via School Gateway. Breakfast is provided during this time.

A free Breakfast Club is available between 8.30am and 8.40am. Please note that the last admission is 8.40.

Every child who attends is expected to behave appropriately, as is expected for the rest of the school day. If a child cannot abide to this then we will have to discuss the suitability of using the facility

If you would like your child to attend the Pre-School Care Club or Breakfast Club, you must register on School Gateway to ensure a place for your child.

Cinio / Lunch

Mae cinio am ddim ar gyfer plant y Derbyn hyd at flwyddyn 6 drwy gynllun Llywodraeth Cymru. Coginir cinio ffres yng nghegin y ddwy ysgol.

Mae cinio ysgol am ddim ar gael ar gyfer rhai disgyblion. Rydym yn annog pob rhiant sydd yn tybio eu bod yn gymwys i dderbyn cinio i holi yn y swyddfa budd-dal neu gwirio drwy'r linc

www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cinio-ysgol-clwbrecwast.aspx

Petai eich plentyn angen diet arbennig, neu petai unrhyw fwyd angen cael ei osgoi, rydym yn gofyn yn garedig i chi adael i gogyddes yr ysgol wybod drwy lythyr. Gallwch wneud apwyntiad i drafod hyn ymhellach drwy gysylltu â Pennaeth yr ysgol. Gwneir pob ymdrech i gadw at y fwydlen gyhoeddwyd, ond ar adegau mae'n gorfod newid oherwydd ymarferoldeb derbyn archebion.

Mae'r ysgol yn aelod o'r 'Rhwydwaith Ysgolion Iach' ac yn rhoi pwyslais mawr ar fwyta'n iach. Caiff plant ddod a phe cyn bwyd iachus.

All pupils from Reception to Year 6 pupils will have free school meals via the Welsh Government's initiative. Lunch is freshly cooked in both school kitchens. Free school meals are available for some children-we encourage all parents who are entitled to claim to check with the Benefits Office or follow the link www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Schools-and-learning/School-meals-andbreakfast-clubs.aspx Should a special diet be necessary for your child, please inform the school cook in writing via the Headteacher. We do our best to follow the published menu, but sometimes, the practicalities of food delivery can cause a change.

The school is a member of the 'Healthy Schools Network' and puts great emphasis on healthy eating. Alternatively, children may bring a healthy packed lunch.



Ysgol Iach / Healthy School

LLAETH / MILK

Mae llaeth am ddim i ddisgyblion yn ddyddiol.

Pupils are given milk daily, free of charge.



FFRWYTH / FRUIT

Annogir plant y Ffederasiwn i fwyta ffrwythau yn ddyddiol ac i ddod a ffrwyth i'r ysgol gyda hwy. Bydd angen torri grawnwin yn fan. Ni chaniateir fferins na chreision.

Children are encouraged to eat at least one piece of fruit every day and to bring their own fruit to school. Grapes to be cut in small pieces. Sweets and crisps are not allowed.

Mae'r Ffederasiwn yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Mae gennym raglen lawn ac rydym yn annog disgyblion i fwyta'n iach a chadw'n heini.

The Federation is part of the Gwynedd Healthy Schools initiative. We follow a comprehensive programme. We encourage pupils to eat healthily and keep fit.



Cyswllt â'r Cartref / Home and School Contact

Cyswllt â'r Cartref

Ni all y Ffederasiwn lwyddo heb gefnogaeth rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r Ffederasiwn yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus. Gall pob riant sy'n dymuno, drafod unrhyw agwedd ar addysg eu plant, drefnu i gyfarfod â'r Pennaeth neu'r athro/athrawes ddosbarth, trwy gysylltu â'r Pennaeth dros y ffôn neu ebost.

Home and School Contact

The Federation cannot succeed without the support of parents. We therefore appeal for you to take an interest in your children's education and to support the Federation in its work and its public activities.

Parents who wishes to discuss any aspect of school life can organise a meeting with the Head teacher/class teacher by contacting the Headteacher via telephone or email.



Codi Tal am Ymweliadau Addysgol / Charging for Educational Visits

Rydym yn awyddus iawn i drefnu gweithgareddau diddorol i'r plant gan gynnwys ymweld a llefydd arbennig. Ymdrechir i alluogi pob plentyn i fod yn rhan o ymweliadau all-gwricwlaidd y Ffederasiwn. Gofynnir am gyfraniad ariannol tuag at gost unrhyw ymweliad.

Petai unrhyw riant yn teimlo ei bod hi'n anodd cyfrannu yn ariannol, mae croeso iddynt gysylltu â'r ysgol i drafod y mater yn gyfrinachol. Gall yr ysgol wedyn gynnig eu cynorthwyo.

Codi'r tâl rhannol am wersi offerynnol cerdd.

Wrth weithredu'r polisi yma gobeithir y gall pob plentyn dderbyn y profiadau amrywiol sy'n cael eu cynnig.

We are always keen to arrange interesting activities for the children. The Federation's aim is to enable all children to take part in the school's curricular and extra curricular activities. On some occasions parents are asked to contribute a sum of money to help meet the cost of a particular visit. If a parent has difficulty in contributing financially, then they are welcome to contact the school to discuss the matter in confidence. The school may then assist them with a contribution.

A fractional charge is imposed for instrumental lessons.

By implementing this policy, every child will be able to benefit from the variety of activities that are on offer.



Gweithgareddau Ychwanegol

Gobeithia'r Ffederasiwn sicrhau cyd-weithrediad a chefnogaeth rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir.

Mae'r Ffederasiwn yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n agored i'r holl ddisgyblion sydd, ym marn y Pennaeth, yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt.

- Bydd y Ffederasiwn yn cymeryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd.
- Cynhelir clybiau garddio wythnosol yn y ddwy ysgol
- Fel arfer trefnir trip blynyddol i'r Ffederasiwn gyfan yn ystod tymor yr haf.
- Bydd Cyngerdd Nadolig / gwasanaeth yn cael ei gynnal yn flynyddol.
- Mae plant y Ffederasiwn yn mynychu ac yn cymryd rhan mewn Gwasanaeth Diolchgarwch yn flynyddol.
- Mae'r Ffederasiwn wedi ymrwymo â'r cynllun 'Ysgol Iach'.
- Gwna'r Ffederasiwn pob ymdrech i gefnogi elusennau
- Rydym yn chwarae rhan lawn ym mywyd y pentrefi.



Additional Activities

The Federation aspires to ensure the co-operation and support of parents with all the additional activities organized.

The Federation offers a variety of activities which are open to all pupils who are in the Headteacher's opinion, ready and mature enough to take part in them.

- The Federation takes part in 'Urdd' activities.
- Weekly gardening club meetings are held on both sites.
- An annual trip for the Federation is usually organised during the Summer Term.
- An annual Christmas Concert / Christmas Service is held in each village on alternate years
- School pupils take part in a Harvest/Thanksgiving Service annually.
- The school has enrolled with the 'Health Promoting' project.
- The Federation supports charities
- The school plays a key part in community activities.



Ffrindiau'r Ysgol / Friends of the School

Mae Pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol yn bodoli yn y ddwy ysgol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o rieni gweithgar a brwdfrydig. Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cymorth a gynigir. Cynhelir amrywiol weithgareddau i godi arian tuag at gronfa'r ysgol yn ystod y flwyddyn ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl gefnogaeth mae'r ysgol yn ei dderbyn.

Anogir pawb i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn - gorau po fwyaf! Croesewir unrhyw syniadau ar gyfer codi arian ac os na allwch ddod i'r cyfarfodydd, yna anfonwch eich syniadau/sylwadau at y pwyllgor trwy'r ebostio'r Pennaeth.



There is Friends of the School Committee in both schools, which includes representatives of active and enthusiastic parents and we are very grateful for the help offered. Various activities are held to raise money for the school fund during the year and we greatly appreciate all the support the school receives.

Everyone is encouraged to participate in these meetings - the more the merrier! Any ideas for raising money is welcomed and if you can not attend the meetings, please send your ideas / comments to the committee via the Headteacher's email.

Clwb Garddio / Gardening Club

Rydym yn ddiolchgar i rieni a gwirfoddolwyr am ein helpu gyda'r garddio o fewn y ddwy ysgol.

We are very grateful to parents and volunteers for helping us with the gardening session in both schools.



Cylch Meithrin / Ti a Fi



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Services



Ysgol Pennal

- * Cynhelir Ti a Fi yng Nghanolfan Pennal boreau Mawrth
- * Ti a Fi in Canolfan Pennal Tuesday mornings

Ysgol Dyffryn Dulas

- Mae Cylch Meithrin Corris ar dir yr ysgol.
- Ar gyfer plant 2 i 4 oed
- Ar agor 3 diwrnod yr wythnos 11:30 - 15:30
- Dydd Mawrth, Dydd Mercher a Dydd Iau
- Rhif cyswllt [07766813030](tel:07766813030)

Ysgol Dyffryn Dulas

- Cylch Meithrin Corris is on school grounds
- For age 2-4
- Open 3 days a week 11:30 - 15:30
- Tuesday, Wednesday and Thursday
- Contact number [07766813030](tel:07766813030)



Y Gymuned

Rydym yn ffodus iawn o gael gweithio yn agos â nifer o sefydliadau yn y gymuned leol a rydym yn rhan o nifer o weithgareddau a phartneriaethau sydd wedi ei sefydlu er sawl blwyddyn. Rydym yn hynod ffodus o leoliad yr ysgol, ac o harddwch naturiol yr ardal leol sydd hefyd yn llawn hanes. Rydym yn gwneud y mwyaf o'r ardal, i gyfoethogi profiadau'r plant yn yr awyr agored. Drwy'r cysylltiadau yma gyda gwahanol aelodau o'r gymuned, rydym yn meithrin plant i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, yn ogystal â datblygu rôl gymunedol a dinesig yr ysgol.

YSGOL PENNAL
Eglwys Pennal
Partneriaeth Pennal 2050
Menter y Glan
Ganolfan Pennal
Sioe Pennal
Cneifio Cyflym Pennal
Cyngor Cymuned Pennal



YSGOL DYFFRYN DULAS

Cylch Meithrin Corris

Clwb Chwarae Corris

•Clwb pel droed y Chwarelwyr

Sioe Corris

Yr Institiwt

Rheilffordd Corris

Canolfan Grefftau Corris

Cyngor Cymuned Corris



We are very fortunate to be able to work closely with a number of organizations in the local community and we have been part of a number of activities and partnerships for several years. We are extremely fortunate in the location of the school, and in the natural of the local area which is also full of history. We make the most of the area, to enrich the children's outdoor experiences. Through these connections with different members of the community, we nurture children to be principled and informed citizens, as well as developing the community and civic role of the school.

DIFFINIAD LLYWODRAETH CYMRU AM DDARPARIAETH Y GYMRAEG

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg-dogfenganllawiau-anstatudol-rhagfyr-2020-drafft.pdf>

Iaith yr ysgol Categori 3

Dyma ddiffiniad Llywodraeth Cymru o Gategori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg: “Cymraeg yw’r brif iaith ar gyfer cyfathrebu Mewnol yn yr ysgol. Mae’n cyfathrebu â rheini a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg, neu’n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi’r dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a’r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu’n llawn yn y Gymraeg gyda’r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.”

Mae Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal yn y categori hwn. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol hon. Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio’r iaith yn naturiol i wahanol ddibenion o fewn bywyd beunyddiol yr ysgol. Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn cynnig darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrddfyodiaid.

Rydym yn annog a chefnogi oedolion sy’n awyddus i ddysgu Cymraeg. Gallem eich cyfeirio at eraill yn y gymuned sy’n fodlon eich cynorthwyo. Dewch i holi a chewch gefnogaeth llwyr ganddom

Gwynedd 2022-2032

Cynllun-Strategol-y-Gymraeg-mewn-Addysg.pdf (llyw.cymru)



SCHOOL CATEGORIES ACCORDING TO WELSH MEDIUM PROVISION

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/guidance-on-school-categories-according-to-welsh-mediumprovision.pdf>

School language Category 3

This is the Welsh Government's definition of Category 3 , Welsh medium schools : “Welsh is the school's main language of internal communication. Communication with parents and carers is in either English, Welsh or bilingually as needed. This is a school with a strong Welsh language ethos at its core, supporting and enabling learners' Welsh language use in all social context in and outside of school. In a Welsh immersion setting all learners are taught fully in Welsh, with English being used on occasion to ensure understanding during early immersion. From aged 7 onwards at least 80% of learner's school activities (both curricular and extra-curricular) will be in Welsh.”

Ysgol Dyffryn Dulas and Ysgol Pennal is within this category. Welsh is the everyday language of this school. Emphasis is placed on using the language naturally for different purposes within day-to-day life of the school. Gwynedd Education Authority offers specific provision for late-comers. Those of you whose children become part of a bilingual situation for the first time should not feel threatened or that you do not belong.

We fully support and advise many adults who decide to learn the language – we can direct you to various organisations to help and we will always fully support you. Just come and ask

Gwynedd 2022-2032

Welsh-in-Education-Strategic-Plan.pdf (llyw.cymru)



Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Rydym yn hyrwyddo nôd Siarter iaith y Gymraeg (Llywodraeth Cymru), sef ysbrydoli defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd."

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwngymraeg-dogfen-ganllawiau-anstatudol-rhagfyr-2020-drafft.pdf>

Nod Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hwn yn nod tymor hir, ac mae gan y system addysg gyfraniad allweddol i'w wneud er mwyn ei wireddu. Er mwyn cyflawni'r nod, bydd angen datblygu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn gallu datblygu'i sgiliau iaith Gymraeg i'w defnyddio'n gymdeithasol ac mewn gwaith yn y dyfodol.

Un o'r nodau allweddol o fewn strategaeth Cymraeg 2050 yw sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.



We promote the aim of the Welsh Government's Language Charter which is to "inspire the use of Welsh in all aspects of life". It encourages participation from every member of the school community - pupils, parents, school governors and the wider community. <https://hwb.gov.wales/storage/3b73bf7c-640d-4c34-855d-9586b0b30c80/siarter-iaith-framework.pdf>

The Welsh Government aims to have a million Welsh speakers by 2050. This is a long-term aim, and the education system has a key role to play in achieving it. In order to achieve the aim, changes will be needed to the curriculum to ensure that all learners in Wales are able to develop their Welsh language skills for social and work use in the future.

One of the key aims within the 2050 Welsh strategy is to embed positive language use practices supported by formal and informal opportunities to use Welsh socially.


Cymraeg

Urdd

Mae cyfle i bob disgybl gofrestru gyda'r Urdd o'r Derbyn i Flwyddyn 6.

Yn ystod y flwyddyn bydd cyfle i gystadlu mewn amrywiol gystadlaethau

- Cogurdd a Poburdd
- Chwaraeon yr Urdd (Pel droed, Rygbi Tag, Pel Rwyd, Criced, Athletau)
- Eisteddfod yr Urdd (Canu, Llefaru, actio, canu grŵp, Llefrau grŵp, offerynnol)
- Celf a Chrefft yr Urdd



All pupils from Reception to Year 6 have the opportunity to register with the Urdd.

During the year, there will be opportunities to take part in a variety of competitions, including:

- CogUrdd
- Urdd Sports (football, tag rugby, netball, cricket, athletics)
- Urdd Eisteddfod (singing, recitation, acting, group singing, group recitation, instrumental)
- Urdd Arts and Crafts



Education in Gwynedd

Welsh is

- the language of schools in Gwynedd;
- the language of business and communication in schools in Gwynedd;
- the language of teaching and learning in every subject (except for English); and
- the language of teachers, pupils and every aspect of school life.

Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd

Gwynedd has Language Immersion Centres for children. Immersion in Welsh helps learners entering Welsh-medium education at a later stage (typically after the age of seven) and pupils for whom Welsh may not have been part of their daily routine, to gain the skills and confidence needed to continue their learning through Welsh.

Canolfannau Iaith Gwynedd Language Centres

[Canolfannau Iaith Gwynedd Language Centres \(canolfannau-iaith-gwynedd.cymru\)](http://canolfannau-iaith-gwynedd.cymru)



Gwersi Cymraeg i oedolion / Welsh lessons for adults

Os oes diddordeb i ddysgu Cymraeg, mae llawer o gyrsiau Dysgu Cymraeg ar lein a wyneb yn wyneb ar gael ar wefan dysgucymraeg.cymru. Gweler linc

[EN | Learn Welsh](#)



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



If you're interested to learn Welsh, there are many Learn Welsh courses available on line and face to face – learnwelsh.cymru.

See link

[EN | Learn Welsh](#)

Cyngor Ysgol / School Council

Mae gan y ddwy ysgol Gyngor Ysgol effeithiol sy'n cyfarfod yn gyson.

Mae gan y Cyngor Ysgol gyswllt arbennig gyda'r Llywodraethwyr a byddant yn eu cyfarfod er mwyn adrodd ar ddatblygiadau, rhannu arferion da a chyd-weithio.

Caiff y Cyngor Ysgol gyfleoedd i sefyll o flaen yr holl ysgol, i holi'r disgyblion ac i rannu eu syniadau.

Mae'r Cyngor Ysgol yn weithgar wrth ymwneud â'r agenda Llais y Plentyn yn ogystal ag e.e yn cyrchu barn eu cyd-ddisgyblion am safon yr addysg.



Both schools have an effective School Council which meets regularly.

The School Council has a special link with the Governors, and they meet to report on any developments, share good practice and to co-operate.

The School Council have opportunities to stand in front of the whole school, to question the pupils and to share their ideas.

The School Council is actively involved in the agenda of the Voice of the Child as well as for example accessing the views of their peers for the quality of education.



Gweithdrefnau Cwyno / Complaints Procedure

Crynodeb o weithdrefnau Delio Gyda Chwynion Cyffredinol yr ysgol

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi ynglŷn â'r drefn i'w dilyn pan dderbynnir cwynion yn gysylltiedig â'r ysgol. Ym mhob achos dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf, neu gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr os yw'r gŵyn am y Pennaeth. Pwysleisir, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol. Os nad ydych yn fodlon yn dilyn trafodaeth â'r Pennaeth a chyfnod rhesymol i ddelio a'r anghydfod, yna cynghorir chiwi i gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethol.

Summary of procedures for Handling School General Complaints

The Governing Body has adopted a policy on the procedures to be followed when complaints are received relating to the school. In all cases, contact should be made with the school in the first instance to make an appointment to discuss any complaint with the Headteacher, or contact the Chair of Governors if the complaint is about the Headteacher. It is emphasised, that many complaints can be dealt with quickly and effectively by informal consideration based on discussions with the Headteacher. This is the first step, and the Governing Body would expect that this step has been completed before presenting the complaint formally in exceptional cases. If you are not satisfied after discussion with the Headteacher and reasonable period to deal with the dispute, then you are advised to contact the Chair of the Governing Body.

